**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**50 - Rheoliadau Bridio Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Tachwedd 2018*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 11 Rhagfyr 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Wythnos yn dechrau 17 Rhagfyr 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 18 Rhagfyr 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 43 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Ddim yn ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Ddim yn hysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Ddim yn hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r UE ym maes cyflyrau sootechnegol ac achyddol sy'n ymwneud ag anifeiliaid bridio pur a moch bridio hybrid, a chynhyrchion eginol yr anifeiliaid hyn. Mae'r ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau yn amcanu i sicrhau bod modd parhau i weithredu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Rhagfyr 2018 ynglŷn ag effaith y Rheoliadau hyn, ac eithrio'r ffaith y dylai'r cyfeiriad at “Rheoliad y Comisiwn (EC) 2016/1012” yn natganiad Llywodraeth Cymru ymddangos,

yn hytrach, fel hyn: “Rheoliad (EU) 2016/1012 Senedd Ewrop a'r Cyngor”, fel y nodir yn y Rheoliadau.
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.